

Dysgu â diben: cefnogi cyfnodau pontio ar hyd y continwwm 3-16

Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2022.

Mae pontio ar hyd y continwwm 3-16 yn rhan hanfodol o gefnogi cynnydd dysgwyr. Dylai'r dysgwr fod wrth wraidd y broses bontio. Mae a wnelo pontio effeithiol â chefnogi pob dysgwr ar hyd y continwwm dysgu, wrth iddo symud rhwng gwahanol grwpiau, gwahanol ddsbarthiadau, gwahanol flynyddoedd a gwahanol lleoliadau. Pan fydd ysgolion a lleoliadau yn cynllunio ac yn adolygu eu cwricwlwm, dylent ystyried pa drefniadau y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau pontio effeithiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu ac ymgorffori proses bontio gadarn ac effeithiol ar gyfer dysgwyr ar hyd y continwwm 3-16. Dylai hon fod yn broses barhaus sy'n cydnabod anghenion amrywiol pob dysgwr ac yn cefnogi pob unigolyn ar ei daith ddysgu. Dylid ystyried hefyd unrhyw waith cynllunio cwricwlwm ac asesu sy'n mynd rhagddo ar draws y clwstwr. Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau ar gefnogi cynnydd dysgwyr ar hyd y continwwm 3-16 [yma](#).



Y Bont Weinyddol

Pa brosesau sydd ar waith gennych ar gyfer trefniadau gweinyddol effeithiol a chadarn i sicrhau bod modd trosglwyddo cofnodion dysgwyr yn hawdd ac yn effeithlon rhwng ysgolion a lleoliadau? (e.e. system Trosglwyddo Ffeiliau Cyffredin, Cynllun Trosglwyddo Clystyrau, prosesau cyfnewid data, cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, strwythurau cyfarfodydd, gwerthusiadau trosglwyddo ac ati).



Pont Cymdeithasol a Phersonol

Pa brosesau sydd ar waith gennych i annog cydberthnasau cadarnhaol, cysylltiadau a chynefindra rhwng ysgolion a lleoliadau? (e.e. diwrnodau/nosweithiau agored, digwyddiadau cymdeithasol ar y cyd, mentora cymheiriad, ymweliadau arbenigol, diwrnodau sefydlu, systemau bugeiliol effeithiol, cymorth wedi'i deilwra ar gyfer grwpiau agored i niwed ac ati).



Pont y Cwricwlwm

Pa brosesau sydd ar waith gennych i barhau â gwaith cynllunio cwricwlwm ac asesu a sefydlu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol ar draws ysgolion a lleoliadau a rhyngddynt? Sut mae'r clwstwr yn datblygu ffyrdd o feddwl ar hyd y continwwm 3-16? (e.e. strwythurau cyfarfodydd, amser cynllunio ar y cyd, staffio ar y cyd, prosiectau dysgwyr ar y cyd, proffiliau dysgwyr ac ati).



Pont Addysgegol

Pa brosesau sydd ar waith gennych i barhau â'r arferion dysgu ac addysgu ar draws ysgolion a lleoliadau a rhyngddynt? (e.e. cymorth a deialog proffesiynol traws-gyfnod, dulliau cynllunio cwricwlwm ac asesu cyffredin, dysgu proffesiynol ar gyfer y clwstwr, strwythurau cyfarfodydd, addysgu timau traws-gyfnod, secondiadau rhwng ysgolion ac ati).



Pont Ymreolaeth a Rheoli Dysgu

Pa brosesau sydd ar waith gennych i gefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithgar mewn prosesau pontio? Sut mae prosesau yn annog dysgwyr i fagu hyder a chymryd perchenogaeth o'u dysgu? (e.e. proffiliau un tudalen, portffolios dysgwyr, dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr, dulliau cyffredin o ymdrin â'r cwricwlwm ac addysgeg sy'n annog effeithiolrwydd dysgwyr tuag at gyflawni'r pedwar diben ac ati).